



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchir yng Nghymru 2018

Rhif Adolygu Terfynol

Crynodeb Gweithredol

Mae'r astudiaeth hon yn darparu gwybodaeth am y mathau, symiau, tarddiadau (yn ôl sector diwydiant a rhanbarth daearyddol), a thynged (dull rheoli) gwastraff Diwydiannol a Masnachol a gynhyrchir gan fusnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn 2018. Mae hyn yn diweddarau data yr arolwg diwethaf ar gyfer blwyddyn galendr 2012.

Mae'r wybodaeth hon yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru am nifer o resymau gan gynnwys:

- adroddiadau statudol ar gynhyrchu gwastraff yn unol â Rheoliadau Ystadegau Gwastraff yr UE 2002¹ a Rhan 2 o Atodlen 1 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011;
- llywio datblygiad polisi gwastraff cenedlaethol;
- monitro cynnydd yn erbyn targedau atal ac ailgylchu gwastraff cenedlaethol;
- hysbysu cynllunwyr gwastraff a'r rheolydd;
- cefnogi penderfyniadau buddsoddi megis dewis math a graddfa'r cyfleusterau rheoli gwastraff newydd sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol a'r diwydiant gwastraff; a
- rhoi gwell dealltwriaeth i fusnesau o'u harferion gwastraff cyfredol ac ar gyfer datblygu strategaethau cymorth i reoli gwastraff yn gynaliadwy gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella perfformiad amgylcheddol busnesau.

Yr arolwg

Cynhaliwyd yr arolwg o wastraff Diwydiannol a Masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru ar gyfer blwyddyn galendr 2018 gan SLR Consulting Ltd mewn partneriaeth ag Anthesis (UK) Ltd a'i reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a wnaeth ariannu'r prosiect. Darparodd Ainsworth & Parkinson a Groundwork Cymru waith maes ar gyfer y prosiect.

Casglwyd data ar gyfer 2018 o sampl gynrychioliadol o 1,755² o safleoedd busnes o wahanol sectorau a meintiau ledled Cymru rhwng Ebrill 2019 a Hydref 2019. Cafodd y data ei grosio gan ddefnyddio data poblogaeth safleoedd busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol i lefel ranbarthol a chenedlaethol yng Nghymru. Dangosodd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 97,999 o safleoedd busnes Diwydiannol a Masnachol yng Nghymru yn 2018 gyda 7% o fewn sectorau Diwydiannol a 93% o fewn sectorau Masnachol. O'r safleoedd busnes hyn, roedd gan 65% ohonynt lai na phump o weithwyr ac roedd gan 2% ohonynt 100 neu fwy o weithwyr. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn gymharol ar y cyfan â'r arolygon Diwydiannol a Masnachol blaenorol a gwblhawyd yng Nghymru, y darparodd yr un mwyaf diweddar ohonynt ddata ar gyfer blwyddyn galendr 2012.


¹ <https://ec.europa.eu/eurostat/web/waste/legislation>

² Cafwyd data ar gyfer 1,438 o safleoedd trwy ymweliadau syrfëwr, a chafwyd y gweddill o ddata a ddarparwyd yn ganolog gan y busnesau eu hunain, e.e. y cadwyni archfarchnadoedd mawr, ble mae data ar sgil-gynhyrchion gwastraff fesul safle yn cael ei goladu'n ganolog.

Prif ganlyniadau

- Yn 2018 cynhyrchodd y sectorau Diwydiannol a Masnachol yng Nghymru 2.9 miliwn tonnell amcangyfrifedig o wastraff gyda 50% yn dod o fusnesau'r sector Diwydiannol a 50% o fusnesau'r sector Masnachol³, gweler Figure 1.
- Y manwl gywirdeb ar gyfer cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd yw +/- 4.54% gyda hyder o 90%.

Ffigur 1: Cyfanswm y gwastraff fesul sector, Cymru 2018



- Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio oedd yn cyfrif am 67% o'r gwastraff gyda'r dadansoddiad fel y dangosir yn Nhabl 1.

³ Rhannodd yr arolwg 2018 hwn sector Masnach Gyfanwerthu a Manwerthu 2012 yn sectorau Cyfanwerthu a Manwerthu (gan eithrio Manwerthu Bwyd) a Manwerthu Bwyd ar wahân; a sector Llety a Gwasanaethau Bwyd 2012 yn sectorau Llety a Gwasanaethau Bwyd ar wahân.

Tabl 1: Crynodeb o sut y rheolwyd gwastraff, Cymru 2018

Sector	Cyfradd Paratoi ar gyfer Aildefnyddio, Ailgylchu a Chompostio	Cyfradd Adfer Ynni	Cyfradd Gwaredu Tir
Diwydiannol	69%	6%	9%
Masnachol	64%	9%	12%
Cyfanswm⁴	67%	8%	11%

- Mae'r 2.9 miliwn tonnau yn cael ei ddadansoddi yn ôl rhanbarth fel y dangosir yn Nhabl 2.⁵

Tabl 2: Crynodeb o wastraff a gynhyrchwyd, Cymru 2018

Sector	Swm y gwastraff a gynhyrchwyd fesul rhanbarth 2018 (mil tonnau y flwyddyn a % y sector)						
	De-ddwyrain Cymru		Canolbarth a De-orllewin Cymru		Gogledd Cymru		Cymru gyfan
Diwydiannol	566	39%	512	36%	364	25%	1,441
Masnachol	679	47%	427	29%	347	24%	1,453
Cyfanswm	1,245	43%	938	32%	710	25%	2,894

O gymharu â chanlyniadau arolwg cynhyrchu gwastraff 2012:

- Cafwyd gostyngiad sylweddol yn swm y gwastraff a gynhyrchwyd yn y sector Diwydiannol a Masnachol yng Nghymru o 3.7 miliwn tonnau yn 2012 i 2.9 miliwn tonnau yn 2018.
- Cafwyd gostyngiad sylweddol yn swm y gwastraff a gynhyrchwyd yn y sector Diwydiannol yng Nghymru o 2 filiwn tonnau yn 2012 i 1.44 miliwn tonnau yn 2018.
- Cafwyd gostyngiad hefyd yn swm y gwastraff a gynhyrchwyd yn y sector Masnachol yng Nghymru o 1.7 miliwn tonnau y flwyddyn yn 2012 i 1.45 miliwn tonnau yn 2018 (ychydig yn arwyddocaol yn ystadegol).

ac

- Mae cyfradd Paratoi ar gyfer Aildefnyddio, Ailgylchu a Chompostio gwastraff y sector Diwydiannol a Masnachol yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol o 58% yn 2012 i 67% yn 2018.
- Mae cyfradd Paratoi ar gyfer Aildefnyddio, Ailgylchu a Chompostio gwastraff y sector Diwydiannol wedi cynyddu'n sylweddol o 50% yn 2012 i 69% yn 2018.
- Mae cyfradd Paratoi ar gyfer Aildefnyddio, Ailgylchu a Chompostio gwastraff y sector Masnachol wedi newid o 68% yn 2012 i 64% yn 2018 (nid yn arwyddocaol yn ystadegol).

⁴Efallai y ceir rhai anghysondebau yn y tablau lle nad yw'r cydrannau, o ganlyniad i dalgrynnu, yn adio i fyny i'r cyfansymiau.

⁵ Mae'r arolwg 2018 hwn yn defnyddio rhanbarthau economaidd Cymru, sef Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru, sy'n ddiffiniad rhanbarthol gwahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd yn 2012.

- Gwelwyd cynnydd yn 2018 mewn Llosgi ond gwelwyd y lefelau uchaf mewn Llosgi gydag Adfer Ynni. Yn 2012, anfonwyd 143,000 o dunelli (3.9%) o wastraff i'w Llosgi (2.2% heb Adfer Ynni ac 1.7% gydag Adfer Ynni). Cynyddodd hyn i 236,000 tunnell (8.2%) o wastraff yn 2018 (0.4% heb Adfer Ynni a 7.8% gydag Adfer Ynni).

Cynnydd yn erbyn targedau

Atal gwastraff

Gostyngiad o 1.4% bob blwyddyn tan 2050 yw'r targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff diwydiannol (gan ddefnyddio 2007 fel gwaelodlin). Dylai'r data hwn felly fod yn lleihau 26,546 tunnell bob blwyddyn tuag at gyfanswm tunelledd o 1,604,000 o dunelli yn 2018.

Mae'r data'n awgrymu (gweler Tabl 3) y bu cynnydd tuag at y targed hwn. Ceir gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y swm o wastraff diwydiannol a gynhyrchwyd yng Nghymru.

Tabl 3: Cymharu gwastraff Diwydiannol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn Arolwg	Targed y gwastraff Diwydiannol sy'n cael ei gynhyrchu	Amcangyfrif o'r gwastraff Diwydiannol sy'n cael ei gynhyrchu	
	(miloedd o dunelli)		
2018	1,604	1,441	+/- 6.76%
2012	1,763	2,001	+/- 11.7%
2007	Blwyddyn sylfaen	1,896	+/- 11.4%

Gostyngiad o 1.2% bob blwyddyn tan 2050 yw'r targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff masnachol (gan ddefnyddio 2007 fel gwaelodlin). Dylai'r data hwn felly fod yn lleihau 20,124 tunnell bob blwyddyn tuag at gyfanswm tunelledd o 1,456,000 o dunelli yn 2018.

Mae'r data'n awgrymu (gweler Tabl 4) y bu cynnydd tuag at y targed hwn a chafwyd gostyngiad yn y swm amcangyfrifedig. Fodd bynnag, o ystyried ystod yr hyder, nid oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn swm y gwastraff Masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru.

Tabl 4: Cymharu gwastraff Masnachol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn Arolwg	Targed y gwastraff Masnachol sy'n cael ei gynhyrchu	Amcangyfrif o'r gwastraff Masnachol sy'n cael ei gynhyrchu	
	(miloedd o dunelli)		
2018	1,456	1,453	+/- 6.05%
2012	1,576	1,665	+/- 10.4%
2007	Blwyddyn sylfaen	1,677	+/- 7.4%

Ailgylchu

Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn gosod targed Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio o 67% erbyn 2019/20, a 70% erbyn 2024/25, ar gyfer y Sector Diwydiannol ac ar gyfer y Sector Masnachol.

Mae'r data yn Nhabl 5 yn awgrymu y bu cynnydd tuag at y targed hwn ar gyfer y sector Diwydiannol gyda chynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio ar gyfer gwastraff Diwydiannol; 50% oedd y gyfradd yn 2012 a 69% yn 2018. Cafodd y broses o reoli gwastraff Hylosgi o'r sector Cyflenwi Ynni, y cafodd cyfran fawr ohono ei dirlenwi, ddylanwad mawr ar y gyfradd hon yn 2012.

Tabl 5: Cymharu'r gyfradd Ailgylchu gwastraff Diwydiannol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn Arolwg	Amcangyfrif o gyfanswm y gwastraff Diwydiannol a ailgylchwyd	
	Swm (miloedd o dunelli)	Cyfradd ailgylchu
2018	992	69%
2012	1,002	50%
2007	1,128	59%

Mae'r data yn Nhabl 6 yn awgrymu bod perfformiad y sectorau cynhyrchu gwastraff Masnachol wedi cilio ychydig i fod yn is na tharged 2019/20, o ragoriaeth ymylol flaenorol ar y targed yn arolwg 2012. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio ar gyfer gwastraff Masnachol; 68% oedd y gyfradd yn 2012 a 64% yn 2018.

Tabl 6: Cymharu'r gyfradd ailgylchu gwastraff Masnachol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn Arolwg	Amcangyfrif o gyfanswm y gwastraff Masnachol a ailgylchwyd	
	Swm (miloedd o dunelli)	Cyfradd ailgylchu
2018	936	64%
2012	1,131	68%
2007	628	37%

Cafodd y broses o reoli gwastraff o'r sector Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu ddylanwad mawr ar y gyfradd ar gyfer y sector Masnachol yn 2012. Yn 2018, roedd y sector Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu; Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur (ac eithrio Manwerthu Bwyd) yn dal i gyfrif am 29% o wastraff Masnachol, sy'n fwy nag unrhyw sector Masnachol arall ac roedd y sector yn ailgylchu 73% o'i wastraff. Drwy gael gwared ar y data ar gyfer y sector hwn, cyfanswm y gyfradd Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio ar gyfer y sectorau Masnachol a oedd yn weddill oedd 61% yn 2018 o'i gymharu â 55% yn 2012.

Adfer Ynni

Ceir targed lle na ddylid anfon mwy na 30% o wastraff Diwydiannol i Adfer Ynni erbyn 2024/25. Mae Tabl 7 yn dangos bod cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd Adfer Ynni ers 2012 ond nas rhagorwyd ar yr uchafsymiau ar gyfer 2024/25.

Tabl 7: Cymharu cyfradd Adfer Ynni gwastraff Diwydiannol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn Arolwg	Amcangyfrif o gyfanswm y gwastraff Diwydiannol a anfonwyd i Adfer Ynni	
	Swm (miloedd o dunelli)	Cyfradd Adfer Ynni
2018	90	6.2%
2012	43	2.1%
2007	8	0.4%

Ceir targed lle na ddylid anfon mwy na 30% o wastraff Masnachol i Adfer Ynni erbyn 2024/25. Mae Tabl 8 yn dangos bod cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd Adfer Ynni ers 2012 ond nas rhagorwyd ar yr uchafsymiau ar gyfer 2024/25.

Tabl 8: Cymharu cyfradd Adfer Ynni gwastraff Masnachol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn Arolwg	Amcangyfrif o gyfanswm y gwastraff Masnachol a anfonwyd i Adfer Ynni	
	Swm (miloedd o dunelli)	Cyfradd Adfer Ynni
2018	135	9.3
2012	20	1.2
2007	15	0.9

Safle Tirlenwi

Ceir targed lle na ddylid anfon mwy na 10% o wastraff Diwydiannol i Dirlenwi erbyn 2019/20, a dim mwy na 5% erbyn 2024/25. Fel y dangosir yn Nhabl 9, ceir gostyngiad ystadegol arwyddocaol o 9% yn y gwastraff a anfonir i Dirlenwi yn 2018 o'i gymharu â 27% yn 2012.

Cafodd y broses o reoli gwastraff hylogsi o'r sector ynni ddylanwad mawr yn flaenorol ar gyfradd tirlenwi 2012, a gwelwyd gostyngiad sylweddol yn 2018. Drwy gael gwared ar y data ar gyfer y sector cyflenwi ynni o ddata 2012, roedd cyfanswm y gyfradd Tirlenwi ar gyfer y sectorau Diwydiannol a oedd yn weddill yn 7% yn 2012.

Tabl 9: Cymharu cyfradd Tirlenwi gwastraff Diwydiannol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn Arolwg	Amcangyfrif o gyfanswm y gwastraff Diwydiannol a gafodd ei dirlenwi	
	Swm (miloedd o dunelli)	Cyfradd Tirlenwi
2018	133	9%
2012	534	27%
2007	550	29%

Ceir targed lle na ddylid anfon mwy na 10% o wastraff Masnachol i Dirlenwi erbyn 2019/20, a dim mwy na 5% erbyn 2024/25. Fel y dangosir yn Nhabl 10, 12% yw'r gyfradd Tirlenwi ar gyfer 2018, sy'n ostyngiad sylweddol ers 2012 pan oedd yn 26%.

Tabl 10: Cymharu cyfradd Tirlenwi gwastraff Masnachol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn Arolwg	Amcangyfrif o'r gwastraff Masnachol a gafodd ei dirlenwi	
	Swm (miloedd o dunelli)	Cyfradd Tirlenwi
2018	173	12%
2012	429	26%
2007	848	51%


Gwastraff a gynhyrchwyd fesul sector a ffrwd deunydd yng Nghymru

Cynhyrchodd y sector Diwydiannol 1.44 miliwn tonnell o wastraff. O fewn y swm hwn cafodd y lefel uchaf o wastraff, fel y dangosir yn Figure 2, ei chynhyrchu gan y broses

- Gweithgynhyrchu Metelau Sylfaenol a Chynhyrchion Metel gyda 577,000 o dunelli (40%)
- Y sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod gyda 382,000 o dunelli (27%).

Rhain oedd y trydydd a'r ail brif gynhyrchwyr gwastraff yn ôl eu trefn, yn 2012. Cynhyrchu Cyflenwad Trydan, Nwy, Stêm ac Aerdymheru (Cyflenwi Ynni) oedd y sector Diwydiannol wnaeth gynhyrchu'r swm mwyaf o wastraff yn 2012 gyda 613,000 o dunelli (31%). Cafwyd gostyngiad yn swm y gwastraff a gynhyrchwyd gan y sector hwn i 31,000 tonnell (2%) yn 2018 oherwydd gostyngiad sylweddol yn nifer y gweithrediadau mewn un pwerdy glo.

Ffigur 2: Gwastraff Diwydiannol yn ôl sector⁶ wedi'i rannu gan ffrwd deunydd, Cymru 2018




⁶Er mwyn sicrhau bylchau gwell ar dablau a siartiau, mae disgrifiadau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) wedi'u talfyrru, gweler Tabl 4. Defnyddiwyd y disgrifiad llawn yn y testun.

Gwastraff Di-fetel yw'r prif Wastraff Ailgylchadwy Sych a Deunydd Pacio Gwastraff Gwydr, Gwastraff Plastig, Gwastraff Rwber, Gwastraff Pren, Gwastraff Tecstilau a Gwastraff Papur a Chardbord.

Fel y mae Figure 3 yn dangos, gwastraff pren yw mwyafrif y gwastraff hwn o'r sectorau Diwydiant.

Ffigur 3:Gwastraff Di-fetel Diwydiannol fesul ffrwd is-ddeunydd, Cymru 2018



Gwastraff Di-Fetel Diwydiannol


Cynhyrchodd y sector Masnachol 1.45 miliwn tonnell o wastraff. Mae Figure 4 yn dangos y dadansoddiad fesul sector a'r ffrwd deunydd.

- Roedd y Fasnach Gyfanwerthu a Manwerthu; Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur (ac eithrio Manwerthu Bwyd) yn cyfrif am 417,000 o dunelli (29%)
- Cynhyrchodd Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd 192,000 o dunelli (13%)
- Cynhyrchodd Manwerthu Bwyd yn Unig 183,000 o dunelli (13%) a
- Chynhyrchodd y sector Llety 104,000 o dunelli (7%)

Gyda'i gilydd, y rhain hefyd oedd y sectorau masnachol a wnaeth gynhyrchu'r gwastraff mwyaf yn 2012 a 2007, ond yn 2012 a 2007 cyfunwyd Llety a Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd. Cynhyrchodd y sector Manwerthu Bwyd yn Unig a'r sector

Gweithgareddau lechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol symiau uwch o wastraff yn 2018, o'u cymharu'n annibynnol â'r sector Llety sydd newydd gael ei wahanu.

Ffigur 4:Gwastraff Masnachol fesul sector wedi'i rannu fesul ffrwd deunydd, Cymru 2018




*Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd


Gwastraff Di-fetel yw'r prif Wastraff Ailgylchadwy Sych a Deunydd Pacio Gwastraff Gwydr, Gwastraff Plastig, Gwastraff Rwber, Gwastraff Pren, Gwastraff Tecstilau a Gwastraff Papur a Chardbord.

Fel y dengys Figure 5 mae mwyafrif y gwastraff hwn o'r sectorau Masnachol yn wastraff Papur a Chardbord.

Ffigur 5:Gwastraff Di-fetel Masnachol fesul ffrwd is-ddeunydd, Cymru 2018




Ffigur 6:Gwastraff Diwydiannol a Masnachol fesul ffrwd deunydd, Cymru 2018



*Mae gwastraff arall yn cynnwys Gofal Iechyd, Cyfarpar a Waredwyd a Siwtsh Cyffredinol

O ran ffrwd deunydd, mae Figure 6 yn dangos, o gyfanswm y gwastraff Diwydiannol a Masnachol amcangyfrifedig a gynhyrchwyd, bod 748,000 o dunelli yn cynnwys Gwastraff Di-fetel (26%) wedi'i ddadansoddi fel y dangosir yn Figure 7; 705,000 tunnell o Wastraff Cymysg (24%), 445,000 tunnell o Wastraff Metel (15%), a 331,000 tunnell o Wastraff Anifeiliaid a Llysiau (11%).

Ffigur 7: Gwastraff Di-fetel fesul ffrwd is-ddeunydd, Cymru 2018




Mae'r categori Gwastraff Cymysg yn cynnwys 63% o Wastraff Gweddilliol Cymysg, 35% o Wastraff Ailgylchadwy Cymysg Sych a Deunydd Pacio, 2% o Ddidoli Gweddillion a 0.3% o Wastraff Swmpus.

Dulliau rheoli ar gyfer gwastraff a gynhyrwyd yng Nghymru

Fel y dangosir yn Figure 8, ailgylchwyd bron i 1.3 miliwn tonnell o wastraff Diwydiannol a Masnachol (45%) gyda 413,000 tonnell bellach (14%) yn cael ei baratoi i'w Ailddefnyddio a 305,000 tonnell yn cael ei waredu trwy ei anfon i dirfenwi (11%). Roedd 236,000 o dunelli yn cael eu rheoli trwy Losgi, ac o fewn y swm hwnnw, roedd 225,000 tonnell yn cynnwys Adfer Ynni a chafodd 11,000 ei Losgi heb Adfer Ynni.

Ffigur 8: Gwastraff Diwydiannol a Masnachol fesul dull rheoli gwastraff, Cymru 2018



+ Mae arall yn cynnwys gwastraff a reolir trwy Orsaf Drosglwyddo a'r dull rheoli oedd Ddim yn Gwybod.

+ Mae Ilosgi yn cynnwys Gydag Adfer Ynni a Heb Adfer Ynni.

Mae Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio (gan gynnwys Treuliad Anaerobig) yn cyfrannu tuag at y gyfradd Ailgylchu. Cyfradd Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio ar gyfer cyfanswm yr holl sectorau Diwydiannol a Masnachol gyda'i gilydd oedd 67%.


Gwastraff Peryglus

Cynhyrchwyd 225,000 tonnall amcangyfrifedig o wastraff peryglus gan ddiwydiant a masnach yn 2018; mae hyn yn cyfateb i 8% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd, sef 2.9 miliwn tonnall. Roedd y rhaniad amcangyfrifedig yn 137,000 tonnall o wastraff diwydiannol (61%) ac 88,000 tonnall o wastraff Masnachol (39%).

Roedd Gweithgynhyrchu Metelau Sylfaenol, a Chynhyrchion Metel (64,000 tonnall) yn cyfrif am 28% o gyfanswm y gwastraff peryglus a gynhyrchwyd gan Ddiwydiant a Masnach. Daeth yr ail gyfran fwyaf o wastraff peryglus o'r sector Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol, sef 30,000 o dunelli (13%).

Adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r holl wastraff peryglus Diwydiannol a Masnachol a gynhyrchwyd yn perthyn i'r categori Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio ac Ailgylchu (124,000 tonnall), a anfonwyd i'w Llogi (44,000 tonnall) neu a anfonwyd i'w Drin (24,000 tonnall). Dangosir hyn yn Figure 9.

Ffigur 9: Gwastraff peryglus Diwydiannol a Masnachol fesul dull rheoli gwastraff, Cymru 2018



* Mae arall yn cynnwys yr Orsaf Drosglwyddo a Ddim yn Gwybod

Gwastraff a gynhyrchwyd fesul rhanbarth

Roedd y gwastraff amcangyfrifedig a gynhyrchwyd fesul rhanbarth fel y dangoswyd yn Nhabl 11:

Tabl 11: Gwastraff a gynhyrchwyd fesul rhanbarth, Cymru 2018

Rhanbarth	Gwastraff a gynhyrchwyd (fesul mil tunnell)	Manwl gywirdeb
De-ddwyrain Cymru	1,245	+/- 4.88% gyda hyder o 90%.
Canolbarth a De-orllewin Cymru	938	+/- 4.16% gyda hyder o 90%.
Gogledd Cymru	710	+/- 5.04% gyda hyder o 90%.

Yn ôl dosbarthiad daearyddol safleoedd busnes yng Nghymru, mae 47% yn Ne-ddwyrain Cymru, 29% yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru a 24% yng Ngogledd Cymru.

Y sectorau Diwydiannol a gynhyrchodd y mwyafrif o wastraff yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (55%) a Gogledd Cymru (51%). I'r gwrthwyneb, daeth mwyafrif y gwastraff a gynhyrchwyd yn Ne-ddwyrain Cymru o'r sectorau Masnachol (55%).

Ailgylchu yw'r dull rheoli gwastraff mwyaf ar draws y rhanbarthau. Mae gan Ganolbarth a De-orllewin Cymru'r gyfradd Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio uchaf (72%), gyda De-ddwyrain Cymru yn dilyn (65%) a Gogledd Cymru wedi hynny (63%). Tirlenwi yw'r ail ddull rheoli gwastraff uchaf ar draws y rhanbarthau (Canolbarth a De-orllewin Cymru 10%; De-ddwyrain Cymru 11% a Gogledd Cymru 10%).

Sylwer bod yr arolwg hwn yn defnyddio rhanbarthau economaidd Cymru, sef Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru, ac felly mae'r grwpiau rhanbarthol o ardaloedd awdurdodau lleol ychydig yn wahanol i astudiaeth 2012. Mae hyn yn golygu nad oes modd cymharu canlyniadau rhanbarthol yn uniongyrchol â'r arolwg blaenorol.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru